

# Monmouthshire Countryside Cefn Gwlad Sir Fynwy



monmouthshire  
sir fynwy

**Cylchlythyr ar gyfer Gwirfoddolwyr a Chyfeillion Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Fynwy  
Rhifyn 29 Hydref 2016**

## Croeso

Gobeithio i chi gael haf da, a'ch bod wedi cael cyfle i fwynhau ychydig amser yn yr **Eisteddfod Genedlaethol** a gynhaliwyd yma yn y sir ar Ddolydd y Castell. Maen nhw'n rhagweld hydref lliwgar, ac mae llawer o gyfleoedd i gerdded a mwynhau yn Sir Fynwy, gan gynnwys **Gŵyl Gerdded MonDean**, ein **rhaglen o deithiau tywys** a **Grŵp Cerdded newydd Gofal Llwybrau**. Mae manylion am y rhain isod.

Os oes gennych sylwadau neu gwestiynau neu os hoffech gyfrannu at gylchlythyrau'r dyfodol, cysylltwch os gwelwch yn dda â Morag Sinton, Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad ar 01633 644663 neu [moragsinton@monmouthshire.gov.uk](mailto:moragsinton@monmouthshire.gov.uk)

## Grŵp Cerdded newydd Gofal Llwybrau

Rydw i wedi dechrau grŵp cerdded gofal llwybrau er mwyn darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr weithio gyda'i gilydd, cymdeithasu a rhannu gwybodaeth, yn ogystal â sicrhau bod mwy o lwybrau a hyrwyddir yn cael eu gwirio a'u cynnal.



I gychwyn, mae'r teithiau cerdded yn digwydd unwaith y pythefnos ar ddydd Mercher, ac wedi'u hanelu at wirfoddolwyr gofal llwybrau.

Roedd chwech ohonom ar y daith gyntaf, llwybr cylchol pum milltir Llys Llanddingad. Roeddem yn gallu torri llawer o'r planhigion yn ôl, amnewid cyfeirbwyntiau a manteisio ar yr holl fwyar duon aeddfed. Roedd yr ail daith 'Yng Nghysgod Meindwr Teilo Sant', taflen a gynhyrchwyd fel rhan o brosiect Cerdded gydag Offa i hyrwyddo teithiau cerdded cylchol o Lwybr Clawdd Offa. Yn ogystal â'r tasgau gofal llwybrau arferol, fe arolygom dwy bompren a mwynhau cinio ar risiau eglwys Teilo Sant yn Llandeilo Gresynni.

Os oes diddordeb gennych mewn Grŵp Cerdded Gofal Llwybrau, rhowch wybod i mi (Morag). Bydd ein taith gerdded nesaf ar ddydd Merched y 12fed o Hydref ar Daith Dyffryn Gwy o Gas-gwent i Bwll Brochfael.

## Gofal Llwybrau

### Gwiriad Gofal Llwybrau yr Hydref

Ymhlith y tasgau i ganolbwyntio arnynt wrth ofalu am y llwybrau ym mis Med a Hydref mae:

- cael gwared ar unrhyw bridd, dail ac ati o'r grisiau a'r bont
- sicrhau bod dim mieri ac ati ar y camfeydd nac unrhyw ddodrefn arall y llwybrau

### Gwiriad Gofal Llwybrau yr Haf

Diolch i'r holl wirfoddolwyr a gynhaliodd wiriadau ar y llwybrau ym mis Mehefin a Gorffennaf. Fe dreuliodd gwirfoddolwyr 176 awr yn gofalu am 36 llwybr, ymdrech wych sy'n helpu i gadw'r llwybrau ar agor ac mewn cyflwr da.

## Grwpiau Gofal Llwybrau

Dyma Brian Mahony o'r grŵp llwybrau yn **y Narth** yn ysgrifennu:


Yn ychwanegol at y 4 gwirfoddolwr a weithiodd ar yr arolygon, mae bellach gennym 5 gwirfoddolwr arall sydd wedi cymryd rhan yn niwrnodau gwaith gyda'r Tîm Cefn Gwlad. Rydym wedi clirio 150 metr o lwybrau atyniadol ledled gwaelod cwm Manor Brook a oedd wedi bod yn anhramwyadwy am ryw drideg mlynedd a gosod 24 postyn cyfeirbwynt newydd neu eu hamnewid ledled y pentref. Rydym hefyd wedi gwneud ychydig o waith clirio ysgafn, gan glirio cyfeirbwyntiau a chamfeydd cyfredol wrth i ni gerdded.

Mae'r gwirfoddolwyr i gyd wedi mwynhau ac yn hapus i helpu eto!



Rydym nawr yn cynllunio ein taith gerdded gyntaf yn y pentref ym mis Hydref.

Mae grŵp o aelodau **Croeso i Gerddwyr Cas-gwent** bellach yn mynd allan yn rheolaidd bob dydd Iau i lwybrau gofal llwybrau yn eu hardal. Mae'r lluniau isod yn dangos llwybr ar daith gerdded glchol Mathern Wyelands cyn ac ar ôl ei chlirio ar ddechrau mis Medi.







**tread lightly!**



Ym mis Gorffennaf fe dreuliodd gwirfoddolwyr LaneCare lleol Treadlightly fore ar lwybr gofal llwybrau 26 (Llanwytherin i Langatwg

Lingoed) ar ran o ffordd wledig ddi-ddosbarth sy'n gallu dod yn anhrwymadwy oherwydd y dŵr a'r mwd. Fe roddon nhw 3 tunnell o gerrig ar arwyneb y ffordd a gwneud gwelliannau i'r draeniad. Bydd angen mwy o waith ond dylai hyn ei wneud yn haws i ddefnyddio'r llwybr yn ystod y gaeaf.

Mudiad gwirfoddol yw Treadlightly gyda'r nod o amddiffyn cyfleoedd mynediad hamddenol modurol trwy addysg, partneriaeth a mentrau cadwraeth. Yn Sir Fynwy, mae Treadlightly yn gweithio gydag adran Briffyrdd y Cyngor i ddatblygu prosiect 'Gofal Lonydd' i weithio ar rai o ffyrdd gwledig di-ddosbarth y Cyngor yn yr un modd ag y mae Gofal Llwybrau yn gwneud ar hawliau tramwy cyhoeddus.

Rydym yn gobeithio clywed mwy gan John Askew, cynrychiolydd lleol Treadlightly, mewn rhifyn yn y dyfodol.



## Eisteddfod Genedlaethol 2016

Fe welwyd trawsnewidiad sylweddol yn Nolydd y Castell er mwyn cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Yn llawn pebyll, pafiliynau a stondinau, fe groesawyd miloedd o bobl i'r Maes yn ystod yr wythnos, a oedd yn sych gan fwyaf.

Cafwyd gymorth gan Wirfoddolwyr Cefn Gwlad i osod arwyddion a gynhyrchwyd gan y warden ymddeoledig Denis Manning i'w defnyddio o amgylch stondin Cyngor Sir Fynwy. Roedd Ffrindiau Dolydd y Castell yno ac yn arddangos y Faner Werdd a gyflwynwyd iddynt mewn seremoni yn ystod yr wythnos. Roedd y Gwasanaeth Cefn Gwlad, gyda chymorth gwirfoddolwyr, yn cynnig helfeydd trysor, dipio mewn pyllau a theithiau tyws o'r Gwyddonle. Roedd yn gyfle gwych i ddefnyddio ein Cymraeg a chymryd balchder yn ein hardal.

Mae holl olion yr Eisteddfod bellach wedi cael eu cymryd o Ddolydd y Castell felly nawr mae angen gadael ychydig o amser i ganiatáu i'r gwair dyfu yn ôl, i ardaloedd cywasgedig adfer er mwyn i'r gwartheg allu dychwelyd i bori'r dolydd.



## Amserlenni Gwirfoddolwyr

Cofiwch anfon gofnod o unrhyw oriau a dreuliodd yn gwirfoddoli ym mis Gorffennaf, Awst a Medi cyn gynted â phosib. Mae oriau gwirfoddolwyr yn dangos y gefnogaeth enfawr rydym yn ei derbyn gan wirfoddolwyr ac yn ein helpu i barhau ein cefnogaeth i wirfoddolwyr.



Mae Gŵyl Gerdded MonDean eleni yn rhedeg o ddydd Sadwrn y 1af i ddydd Sul y 9fed o Hydref. Bydd arweinwyr teithiau cerdded profiadol yn eich helpu i archwilio corneli cudd yn ogystal ag ardaloedd hoffus o Ddyffryn Gwy, Sir Fynwy a Fforest y Ddena. Mae'r rhaglen yn cynnwys: crwydrau yn amrywio o 3 i 7 neu 8 milltir; heiciau hirach hyd at 12 milltir; taith gerdded ac mewn canŵ o Drefynwy i Redbrook ac yn ôl; nifer o gopaon y Mynyddoedd Duon ar daith gerdded 20+ milltir; taith gerdded y 3 Castell; hanes a bywyd gwyllt yn Fforest y Ddena; a cherdded ar hyd yr hen reilffordd o Gas-gwent i Drefynwy.

Am ragor o wybodaeth ac i fwcio tocynnau, ewch i [www.walkinginmonmouthshire.org](http://www.walkinginmonmouthshire.org)

## Teithiau Tywys

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn trefnu rhaglen o deithiau cerdded a gynhelir fel arfer ar ddydd Sadwrn cyntaf a thrydydd dydd Sul pob mis. Mae arweinwyr y teithiau cerdded yn wirfoddolwyr cefn gwlad, sy'n dod â'u harbenigedd a'u gwybodaeth leol. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Mark Langley, Prif Warden Cefn Gwlad, 01291 691237 os gwelwch yn dda.

Sunday 23<sup>rd</sup> October 2016

Dydd Sul 23ain o Hydref 2016

### **Brynbuga i Gefn Ila ar gyfer Diwrnod yr Afal**

Taith yno 11.00am (Tua 1 awr), 1.5 milltir (2.5 km)

Taith yn ôl 2.00pm (Tua 3/4 awr), 1.25 milltir (2 km)

Ymunwch â'r Warden Cefn Gwlad Mark Langley am daith gerdded o Frynbuga i ddigwyddiad Diwrnod yr Afal Coed Cadw yng Nghefn Ila. Treuliwch 2 awr yn y digwyddiad cyn cerdded yn ôl i Frynbuga (neu gallwch ddal bws mini os oes well gennyhch). Ambell gamfa ac 1 llethr serth. Caniateir cŵn ar denyddau byr.

Cwrdd wrth y fynedfa i Amgueddfa Bywyd Gwledig Brynbuga ([SO 375 007](http://SO375007)). Cod post NP15 1AU.

Dydd Sadwrn y 5ed o Dachwedd 2016

### **Ysgyryd Fach**

10.30am (Tua 2 awr), 3.5 milltir (5.7km)

Taith gerdded o'r Fenni i gopa Ysgyryd Fach am olygfeydd syfrdanol.

10 camfa, esgyniad a disgyniad serth. Dyma un o'r teithiau cerdded a hyrwyddir gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Fynwy.

Cwrdd ym Maes Parcio Gorsaf Fysiau y Fenni, wrth y peiriant Talu ac Arddangos ([SO 301 140](http://SO301140)) cod post NP7 5HF.

Dydd Sul yr 20fed o Dachwedd 2016

### **Taith Gylchol Llanddingad i Kingswood**

10.30am (Tua 3 awr) 5 milltir (8km)

Taith gerdded heibio Eglwys Sant Dingat, Kingswood a Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, gan fynd heibio dau dwmpath cestyll a Threowen, unwaith y tŷ uchaf yn Sir Fynwy. Ambell gamfa ac 1 llethr serth. Dewch â phegyn cinio a diod.

Mae pentref Llanddingad i ffwrdd o'r hen ffordd o Raglan i Drefynwy, 3.5 milltir i'r gorllewin o Drefynwy. Gallwch barcio yn y maes parcio gyferbyn i neuadd y pentref ([SO 458 101](#)). Cod post NP25 4BE.

Dydd Sadwrn y 3ydd o Ragfyr 2016

### **Golygfeydd gwych, hen ogof ac afon brydferth**

10.30am (Tua 6 awr) 10.5 milltir (17km)

Esgyniad serth i'r Cymin, cerdded trwy goetir i'r Suckstone a'r Near Harkening Rock, cyn dychwelyd i Ogof y Brenin Arthur a glannau'r Afon Gwy. 2 lethr serth iawn, 2 lethr arall ac ambell gamfa. Dewch â phegyn cinio a diod.

Cwrdd y tu allan i Ganolfan Hamdden Trefynwy ([SO 513 131](#)). Cod post NP25 3YT.

Dydd Sul y 18fed o Ragfyr 2016

### **Llanofar ac Allan!**

10.30am (Tua 4.5 awr) 7.5 milltir (12.km)

Taith gerdded gylchol ym Mharc Llanofar, godreion Bannau Brycheiniog, tŷ tafarn the Goose and Cuckoo a rhan o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu. Dewch â phegyn cinio a diod. Nifer o lethrau serth a 32 camfa. Dyma un o'r teithiau cerdded a hyrwyddir gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Fynwy.

Cwrdd wrth y man parcio mawr ar ochr dwyreiniol yr A4042 rhwng Llanelen a Llanofar (([SO 306 097](#))). Cod post NP7 9EB.

## **Gwefannau a'r Rhyngrwyd**

Mae rhai ffurflenni ar gyfer gwirfoddolwyr (hawlio treuliau, dalen amser, ffurflen arolwg Gofal Llwybr) ar gael i'w lawrlwytho'n uniongyrchol o wefan Cyngor Sir Fynwy [yma](#).

Gallwch hefyd weld copi gwaith o'n map diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus yn <http://access.monmouthshire.gov.uk>, lawrlwytho tudalennau i'w hargraffu a rhoi adroddiad am unrhyw broblemau a welwch.

Mae gwybodaeth a dogfennau hefyd ar gael o wefan Cefn Gwlad Sir Fynwy ar hyn o bryd - <http://www.monmouthshirecountryside.wordpress.com>. Caiff llawer o gynnwys y safle ei symud i wefan Ymweld â Sir Fynwy [www.visitmonmouthshire.com](http://www.visitmonmouthshire.com) yn y dyfodol agos.

## **Manylion Cyswllt**

Gwsanaeth Cefn Gwlad  
Cyngor Sir Fynwy  
Blwch Swyddfa'r Post 106  
Cil-y-coed  
Sir Fynwy  
NP26 9AN

01633 644850

[countryside@monmouthshire.gov.uk](mailto:countryside@monmouthshire.gov.uk)

Morag Sinton

Cydlynnydd Gwirfoddolwyr

01633 644663

[moragsinton@monmouthshire.gov.uk](mailto:moragsinton@monmouthshire.gov.uk)